

Trawsnewid Tyisha

Llythyr Newyddion Cymunedol



sirgar.llyw.cymru/tyisha

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council



Neges gan Aelodau ein Bwrdd Gweithredol

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn anodd i bawb mewn rhyw ffordd neu'i gilydd oherwydd y pandemig coronafeirws.

Yn anffodus mae'r feirws wedi arwain at rywfaint o oedi i rannau o brosiect Tyisha, ond y newyddion da yw ein bod yn dechrau gwneud cynnydd go iawn, ac mae llawer o newidiadau cyffrous newydd ar y ffordd yn 2021.

Yn ystod yr wythnosau nesaf edrychwn ymlaen at recriwtio ein Wardeiniaid Cymunedol newydd a fydd yn patrolio ward Tyisha i helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn ogystal ag ymgysylltu â'r gymuned ac â gwasanaethau yn yr ardal.

Rydym hefyd wrthi'n recriwtio swyddog datblygu prosiect newydd a fydd yn canolbwyntio ar ddarparu canolfan gymunedol newydd a fydd yn ysbrydoli plant, pobl ifanc ac oedolion i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd o ran caffael partner i ddarparu tai newydd ar gyfer yr ardal, a byddwn yn canolbwyntio ar ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned gyda'r partner hwn er mwyn sicrhau ein bod yn darparu cymuned fwy amrywiol a chydnerth.

Mae ward Tyisha yn elwa o gael ysbryd cymunedol anhygoel ac er nad yw dathliadau'r Nadolig yn union yr un fath eleni, mae'n bwysig ein bod yn gallu lledaenu rhywfaint o hwyl yr ŵyl gyda'r goeden Nadolig gymunedol ar Heol yr Orsaf.

Rydym yn gwybod nad yw eleni wedi bod yn hawdd ond edrychwn ymlaen at y newidiadau cyffrous a fydd yn digwydd yn 2021.

Oddi wrth y tîm i gyd, dymunwn Nadolig hyfryd a diogel a Blwyddyn Newydd Dda i chi.



yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai
Y Cyngorydd Linda Evans



Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau
Y Cyngorydd Cefin Campbell

Dweud eich dweud am blismona yn Nhyisha

Mae Heddlu Dyfed-Powys a Chyngor Sir Caerfyrddin wedi dod at ei gilydd i archwilio ffyrdd o fynd i'r afael ag ofn troseddu yn ardal Tyisha.

Mae angen i ni glywed eich barn a'ch safbwyntiau chi fel preswylwyr ynglŷn â sut rydych chi'n teimlo am blismona, tawelwch meddwl a diogelwch yn y gymdogaeth.

Mae arolwg newydd wedi'i lansio a fydd yn parhau i fod ar agor tan 15 Ionawr 2021.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrthym beth yw eich barn drwy gwblhau'r arolwg, mae'n bwysig iawn eich bod yn dweud eich dweud.

Sut alla i gael mynediad i'r arolwg?

- Ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen
<https://rb.gy/hibafh>
- Defnyddiwch y Côd QR isod a bydd yn eich cysylltu'n awtomatig â'r arolwg.
- Ffoniwch ni ar 01267 234567 a bydd swyddog yn eich helpu i gwblhau'r arolwg dros y ffôn.
- GGalwch heibio i'n fan gyngor sydd yn ardal Heol yr Orsaf bob yn ail ddydd Llun rhwng 11am a 3pm.



Gwastraff ac ailgylchu

Rydym yn ymwybodol bod yna broblemau wedi bod yn ymwneud â gwastraff, sbwriel a thipio anghyfreithlon yn ystod y misoedd diwethaf. Mae llawer o waith yn cael ei wneud i helpu i wella'r ardal gan gynnwys:

- ✓ Mae tîm ymroddedig bellach ar waith sy'n patrolio'r ardal bob dydd.
- ✓ Mae gohebiaeth wedi'i hanfon at landlordiaid yn yr ardaloedd lle ceir cyfradd droseddu uchel i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran rheoli tenantiaid a storio gwastraff.
- ✓ Mae ymgyrch ar y gweill, sy'n ddiogel o safbwynt COVID-19 ac sydd wedi'i thargedu, i addysgu preswylwyr am ailgylchu a storio / gwaredu eu gwastraff.
- ✓ Caiff camau gorfodi eu cymryd yn erbyn troseddwr parhaus.




Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf:

- ✓ Byddwn yn cyflwyno diwrnodau gorfodi wedi'u targedu, gydag amrywiol swyddogion arbenigol yn patrolio'r ardal.
- ✓ Rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid drwy'r Gronfa Strydoedd Diogelach, a fydd yn helpu i wella'r amgylchedd yn yr ardal. Bydd yn cynnwys glanhau strydoedd yn well, biniau sbwriel newydd a hyrwyddo a chyflwyno dulliau storio gwahanol lle bo angen.

Mae ein camau gweithredu hyd yma wedi cael effaith gadarnhaol yn yr ardal gan fod gostyngiad wedi bod yn swm y gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon sydd wedi'i gasglu ers dechrau'r flwyddyn.

Byddwn yn parhau i fonitro, adolygu a gwneud newidiadau lle bo angen i sicrhau bod tipio anghyfreithlon a gollwng sbwriel yn parhau i ostwng yn yr ardal, a bod camau gorfodi'n cael eu cymryd yn erbyn y rheiny sy'n parhau i droseddu.




Archwiliadau gweledol amgylcheddol

Rydym wedi cydweithio â'r Heddlu a Phobl i gynnal archwiliadau gweledol mewn rhai rhannau o Dyisha. Mae ein harchwiliad cyntaf yn canolbwyntio ar Glos Sant Paul a Ger y Llan.

Ein nod yw gwella'r gwaith o atal troseddu yn y ddwy ardal a hyrwyddo diogelwch cymunedol, yn bennaf drwy'r system gynllunio. Bydd hyn yn golygu edrych ar ffensys, llwybrau, manau gwyrdd a mynediad arall. Byddwn mewn cysylltiad â phreswylwyr yn y ddwy ardal i weld sut y gallwn wella hyn gyda'n gilydd.

Teithiau cerdded

Bydd tîm y prosiect, ynghyd â swyddogion tai, iechyd yr amgylchedd a gwastraff, yr heddlu a chynghorwyr tref a sir lleol yn cynnal 'teithiau cerdded' rheolaidd yn yr ardal. Bydd y dyddiadau a'r amseroedd yn cael eu hyrwyddo ar y wefan ac mewn llythyrau newyddion yn y dyfodol. Cadwch lygad mas amdanom, ac os hoffech drafod rhywbeth dewch draw i'n gweld.



Parc Plant Tyisha

Mae gennym barc newydd cyffrous i blant yn Nhyisha! Mae'r parc oddi ar Stryd Ann wedi'i gwblhau ac mae bellach ar agor i'n preswylwyr iau ei fwynhau.

Mae ychydig o waith i'w wneud o hyd ar yr ardal cerdded cŵn, a fydd yn cael ei gwblhau'n fuan. Mae'r lle chwarae wedi cael ei ariannu gan refeniw tai'r Cyngor ynghyd â chyfraniadau gan Dŵr Cymru ac Arbed Am Byth. Mae wedi cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad llawn â Chyngor Tref Llanelli, a fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r lle chwarae

Mae'n bwysig ein bod ni fel cymuned yn cadw'r parc yn ddiogel ac rydym yn gofyn i blant ysgol lleol ddylunio posteri i barchu rheolau'r parc ac i atal sbwriel a baw cŵn.

Bydd y tîm plismona bro lleol a'n wardeiniaid cymunedol newydd yn patrolio'r ardal yn rheolaidd. Mae'n newyddion gwych i'r gymuned, yn enwedig ein preswylwyr iau a fydd â man agored gwych i chwarae'n ddiogel.



Helpu teuluoedd mewn angen yn ystod amserau anodd

Ers iddo agor ym mis Chwefror eleni, mae Banc Bwyd Tyisha wedi bod yn helpu cannoedd o deuluoedd mewn angen.

Maent yn dosbarthu parseli bwyd o eitemau hanfodol gan gynnwys cynnyrch ffres, tuniau a chynhyrchion hylendid, ac mae ganddynt hyd yn oed fwyd anifeiliaid anwes hefyd i'r rheiny sydd ei angen.

Caiff y banc bwyd ei redeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr, dan arweiniad y cynghorwyr sir lleol Suzy Curry ac Andre McPherson.

O ganlyniad i'r pandemig coronafeirws mae'r galw am gymorth wedi bod hyd yn oed yn fwy, ac maent wedi bod yn hynod o brysur yn ystod y misoedd diwethaf yn helpu pobl sydd wedi cael eu rhoi ar ffyrlo, sydd wedi colli eu swyddi neu sy'n ddigartref.

Mae'r gwirfoddolwyr yn dosbarthu bob nos yn ystod yr wythnos ac ar ddydd Sadwrn i gadw preswylwyr yn ddiogel (ac eithrio'r gymuned ddigartref). Os hoffech helpu neu roi rhodd ewch i Dŷ Elizabeth, Maes y Gors, Heol yr Orsaf, Llanelli.



Llongyfarchiadau i'r holl dîm!

Gwefan

Rydym wedi lansio ein tudalennau Tyisha newydd ar y wefan. Os hoffech wybod mwy am yr hyn sy'n digwydd yn yr ardal a phryd y bydd swyddogion yn cynnal arolygiadau ewch i www.sirgar.llyw.cymru/tyisha

Mae yno lawer o wybodaeth ddefnyddiol am yr hyn yr ydym yn ei wneud, beth sy'n digwydd a sut y gallwch gysylltu â ni. Gallwch hefyd gofrestru i gael negeseuon e-bost yn rhoi'r newyddion diweddaraf.



Camau i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol

Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol gael effaith wirioneddol ar ansawdd eich bywyd. Mae'n gallu golygu unrhyw beth sy'n achosi braw, aflonyddwch neu ofid, gan gynnwys cŵn yn cyfarth, cerddoriaeth uchel, cam-drin geiriol/corfforol, defnyddio cyffuriau, ymddygiad troseddol, gerddi'n tyfu'n wyllt, neu dipio anghyfreithlon.

Mae gennym bolisiau cryf ar waith, yn ogystal â pherthynas gref â phartneriaid fel Heddlu Dyfed-Powys, er mwyn atal ac ymateb i broblemau yn eich ardal.

Rydym yn gwneud popeth yn ein gallu i ddelio â'r problemau hyn, gan gydbwysu camau atal a gorfodi. Ar ddiwedd y dydd, rydym yn gallu cymryd camau yn erbyn ein tenantiaid. Yn ddiweddar cymerodd y Tîm Cymdogaeth Fwy Diogel gamau ffurfiol yn erbyn tenant yng Nghlos Sant Paul, a fu'n achosi trafferth i lawer ohonoch sy'n byw gerllaw.

Os yw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio arnoch chi, rhowch wybod i ni ac fe wnawn ni beth allwn ni i helpu.

- E-bostiwch Tyisha@sirgar.gov.uk neu ffoniwch **01267 234567**
- Dylid rhoi gwybod i Heddlu Dyfed-Powys am weithgarwch troseddol drwy ffonio **101**.



PCSO Piotr Glowczyk Heol y Orsaf, Llanelli

Cynlluniau i ddymchwel y 4 Tŷ

Rydym bellach wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio i ddymchwel y 4 Tŷ - Tŷ Cydwel, Tŷ Meriel, Tŷ Elizabeth a Thŷ Howard.

Mae'n rhan o'n gweledigaeth i ddarparu amrywiaeth o dai defnydd cymysg newydd o ansawdd da ar gyfer ardal Tyisha, er mwyn rhoi cyfle i'r sawl sy'n prynu am y tro cyntaf, i deuluoedd, ac i'r rheiny sydd angen tai cymdeithasol. Bydd hyn hefyd yn helpu i adfywio'r ardal a gwella'r amgylchedd adeiledig.

Ein bwriad yw dechrau dymchwel rhai o'r adeiladau yn haf 2021. Gallwch fod yn dawel eich meddwl y byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynlluniau, a byddwn yn cysylltu'n uniongyrchol â thrigolion cyfagos cyn i'r broses ddechrau.

Bydd y Banc Bwyd yn Nhŷ Elizabeth yn aros ar agor yn ystod misoedd y gaeaf.

Gorchymyn Mannau Agored Cyhoeddus

Mae Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus newydd wedi cael ei gyflwyno i helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Bydd y gorchymyn yn rhoi pwerau ychwanegol i'r heddlu os yw pobl mewn rhai rhannau o ganol tref Llanelli, Tyisha, Glanymôr, Elli, Lliedi a Hengoed yn cael eu dal yn yfed alcohol.

Mae'r gorchymyn yn golygu y gallai'r heddlu ofyn i bobl roi'r gorau i yfed neu hyd yn oed roi dirwy o hyd at **£500**.

Mae arwyddion perthnasol wedi'u gosod yn yr ardaloedd, ac mae map o'r parth i'w weld ar wefan y cyngor. www.sirgar.llyw.cymru



Beth sydd wedi digwydd ers yr ymarfer 'Planning for Real'

Dywedoch chi:

“Roedd gollwng sbwriel, thipio anghyfreithlon a baw cŵn yn broblem yn Nhyisha”

Gwnaethom ni:

- ✓ Mae tîm gwastraff ymroddedig wedi'i sefydlu i batrolio ardal Tyisha i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon a'i waredu cyn gynted â phosibl. Bydd camau'n cael eu cymryd yn erbyn troseddwyd, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu dal yn gollwng sbwriel ac sy'n methu â chodi eu baw cŵn.
- ✓ Mae teledu cylch cyfyng yn cael ei osod mewn ardaloedd problemus i helpu i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.
- ✓ Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â Heddlu Dyfed-Powys, wrthi'n recriwtio Wardeiniaid Cymunedol, a fydd yn allweddol er mwyn cymryd camau yn erbyn y rheiny sy'n torri'r gyfraith, yn ogystal â gallu rhoi cyngor ac arweiniad i'r gymuned.
- ✓ Rydym wedi derbyn cyllid i ddarparu biniau storio gwastraff newydd ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yn yr ardal. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n nodi'r ardaloedd lle mae angen a beth yw maint y biniau sydd eu hangen ar gyfer y mathau o eiddo, a byddwn yn cyflwyno'r gwasanaeth yn y flwyddyn newydd.
- ✓ Rydym wedi ysgrifennu at landlordiaid sydd ag eiddo ar rent yn yr ardaloedd lle mae'r problemau'n ymwneud â gwastraff cartrefi a thipio anghyfreithlon ar eu huchaf yn Nhyisha. Roedd y llythyr yn atgoffa landlordiaid o'u cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â gwastraff, ac roedd hefyd yn rhoi cyngor ac arweiniad.
- ✓ Cynhelir diwrnodau penodedig i orfodi materion gwastraff bob mis lle bydd nifer o swyddogion yn yr ardal, gan gymryd camau gorfodi lle bo angen. Yn bwysicach na hynny, byddant ar lawr gwlad i roi cyngor ac arweiniad i breswylwyr a busnesau er mwyn mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.

Gallwch chi:

Roi gwybod i ni am sbwriel, baw cŵn a thipio anghyfreithlon drwy fynd i'r adran '**rhoi gwybod**' ar ein gwefan: www.sirgar.llyw.cymru
Rhowch gynifer o fanylion â phosibl, fel lleoliad ac unrhyw luniau sydd gennych.



Dywedoch chi:

“Roedd yfed mewn mannau cyhoeddus yn achosi problemau”

ac roeddech chi eisiau

“mwy o batrolau ar droed gan yr heddlu.”

Gwnaethom ni:

- ✓ Bellach gellir gorfodi ein Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus newydd. Mae mwy o wybodaeth am y gorchymyn i'w gweld ar dudalen 5
- ✓ Caiff patrolau a chyrrhoedd heddlu amlwg eu cynnal yn yr ardal.
- ✓ Cyflwynwyd faniau cyngor yr heddlu, sy'n darparu amrywiaeth o wybodaeth a chyngor i'r gymuned ac atgyfeiriadau i asiantaethau eraill.

Gallwch chi:

I riportio mater ffoniwch yr heddlu ar **101**.

